disability wales
anabledd cymru

AROLWG 2013-2014

Fersiynau Braille, print bras, tâp sain neu ddisg ar gael.

Mae Anabledd Cymru yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru

Cyhoeddwyd gan Anabledd Cymru 2014
Cyfieithiwyd gan beuno.com
Dyluniwyd gan Andy Dark
Argraffwyd gan Zenith Media
Anabledd Cymru yn elusen gofrestredig, rhif 517391
ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant, rhif 1998621

**Tŷ'r Bont**
**Parc Busnes Caerffili**
**Heol Van**
**Caerffili**
**CF83 3GW**

**Ffôn:** 029 2088 7325
(Minicom drwy'r cyhoeddwr)
**Ffacs:** 029 2088 8702
**Ebost:** info@disabilitywales.org
**Gwefan:** www.disabilitywales.org

---

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Communities 2.0 Cymunedau 2.0

INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL

## Cenhadaeth

Anabledd Cymru yw cymdeithas genedlaethol cyrff pobl anabl sy'n brwydro dros hawliau, cydraddoldeb ac annibyniaeth pob person anabl.

## Nodau strategol

Datblygu a chefnogi gwaith cyrff a arweinir gan bobl anabl

Gweithredu fel adfocad effeithiol o farn, blaenoriaethau a diddordebau ein haelodau

Dylanwadu ar bolisïau a llunwyr penderfyniadau ar bob lefel

Datblygu a darparu gwasanaethau er lles pobl anabl

# Crynodeb y Cadeirydd

> ***Ym marn pob grŵp rhanddeiliaid, mae'r corff mewn sefyllfa gref ar sail ei bobl.***
>
> AC Arolwg Strategol 2014:
> *20 degrees consulting*

Unwaith eto, mae'n amser i mi adolygu ein gweithgaredd dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf, hyd ddiwedd Mawrth 2014.

Profodd yn flwyddyn brysur arall, a hynny mewn cyfnod ariannol heriol. Mae cyllid yn y sector gwirfoddol yn gostwng o flwyddyn i flwyddyn, ond y llwyth gwaith yn cynyddu, gyda chyllidwyr, aelodau a chefnogwyr yn disgwyl mwy o gyrff elusennol. Roedd y flwyddyn yn llawn gweithdai, cyrsiau hyfforddi, cyfarfodydd, lansiadau a'n seminar a chyfarfod blynyddol.

Yn ystod y flwyddyn gadawodd Dr Nich Pearson y Bwrdd am resymau personol. Diolch yn fawr iddo am ei waith i gefnogi Anabledd Cymru. Croeso nôl i April Harper, a chroeso o'r newydd i Alan Thomas a Trevor Palmer.

Ochr yn ochr â'n gwaith llywodraethu, mae'r cyfarwyddwyr wedi bod yn rhan o bob maes rheoli strategol, mewn pwyllgorau, grwpiau project ymgynghorol, cyfarfodydd a hyfforddiant staff a chyfarwyddwyr, ynghyd â chyrsiau hyfforddi a gweithdai penodol, a chyfweliadau datblygu personol. Byddwn hefyd yn mynychu digwyddiadau a gweithgareddau aelodau, ac yn ystod y flwyddyn roeddem yn rhan o weithdai olaf project Y Ffordd Ymlaen, a Diwygiadau Lles, ynghyd â gweithdai Bywydau Digidol a gyllidwyd gan Cymunedau 2.0. Rydym yn parhau gyda gwaith yn gysylltiedig â'r Fframwaith Gweithredu Byw'n Annibynnol, a lansiwyd ym Medi 2013 gan y Gweinidog Jeff Cuthbert AC.

Cynhaliwyd y cyfarfod cyffredinol a seminar blynyddol ym mis Hydref 2013 yn Stadiwm Liberty, Abertawe, gan groesawu nifer dda o gynrychiolwyr. Roedd yn cynnwys lansiad gwefan



newydd Anabledd Cymru, gan ddilyn gyda fformat newydd ar gyfer y cylchlythyr newyddion misol. Gwelwyd cynnydd sylweddol mewn defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol, gyda nifer fawr o ddilynwyr ar Facebook a Twitter, yn cynnwys nifer o'r cyfarwyddwyr.

Yn ystod y flwyddyn, roedd y cyfarwyddwyr hefyd yn rhan o adolygiad strategol y corff, trefnwyd adolygiad cynllunio olynu ac arolwg o'r aelodaeth. Cyfwelwyd, penodwyd a chroesawyd Victoria Baldwin, rheolwraig datblygu busnes, a Fiona MacDonald, rheolwraig materion polisi & cyhoeddus dros dro.

Drwy gydol y cyfnod, llwyddwyd i gael grantiau i gynnal projectau lleisiau cymunedol Loteri Fawr yn ardal Penybont a sir Benfro, project taliadau uniongyrchol o dan gyfarwyddwyd dinasyddion gyda Chanolfan Cydweithredol Cymru, ac yn fwy diweddar, project 'Galluogi Cymru'. Cyllidwyd gan grant cydraddoldeb & cynhwysiad Llywodraeth Cymru er mwyn helpu i ddatblygu canolfannau byw'n annibynnol ar draws y wlad, mewn partneriaeth â chanolfan byw'n annibynnol Dewis a Chanolfan Cydweithredol Cymru.

Profodd yn flwyddyn heriol iawn ac fel arfer diolch i bob un o'r cyfarwyddwyr am eu gwaith a'u cymorth. Diolch hefyd i'n prif weithredwraig Rhian Davies a'r tîm staff am eu holl waith a chefnogaeth yn ystod cyfnod ariannol anodd er cynnal blwyddyn lwyddiannus iawn yn hanes Anabledd Cymru.

**Wendy Ashton** *Cadeirydd*

# Adroddiad y Trysorydd

Cyn cyflwyno'r adroddiad ariannol, hoffwn ddiolch ein rheolwraig swyddfa Paula Reed am weithio mor galed i baratoi'r cyfrifon. Diolch hefyd i'r archwilwyr Bloomfield Alexander am eu gwaith a chyngor gwerthfawr.

## Eleni

Dyma ail flwyddyn ein cytundeb cyllid tair blynedd gyda Llywodraeth Cymru. Parhaodd ein grant cyllid craidd ar yr un lefel a dderbyniwyd yn 2012-2013. O ganlyniad roedd rhaid i Anabledd Cymru ariannu unrhyw gynnydd yn ein gwariant craidd o ffynonellau eraill.

Yn rhannol oherwydd cyfyngiadau ar ein cyllid craidd a'r angen am rywfaint o wariant cyfalaf, cofnodwyd gwarged bach o £4,977 ar ddiwedd y flwyddyn, a ychwanegwyd at ein cronfeydd wrth gefn.

Mae ymddiriedolwyr a staff Anabledd Cymru yn parhau i weithio'n galed i gael hyd i ffynonellau cyllid amgen. Eleni, llwyddwyd i gael grantiau ar gyfer dau broject. Bydd y llifoedd cyllid hynny'n ymddangos mewn cyfrifon 2014-2015.

## Polisi cronfeydd wrth gefn

Diben y polisi hwn yw darparu ar gyfer digwyddiadau annisgwyl. Gall hynny fod yn unrhyw beth o fethiant offer swyddfa pwysig i golli holl gyllid yr elusen yn sydyn.

Y nod yw cynnal costau gweithredu o chwe mis, sy'n cynnwys cyfarfod â'r holl rwymedigaethau ariannol.

Ar ddiwedd y flwyddyn ein cyfanswm cronfeydd anghyfyngedig oedd £390,887; oedd yn cynnwys pedair cronfa wedi'u diogelu ar gyfer diswyddiadau (£72,118), cymynroddion (£156,949), ymgyrchoedd (£9,650) a'r cynllun bwrsariaeth aelodau (£4,438).



Y cyfanswm cronfeydd angenrheidiol i gynnal y polisi yw £255,073. Wrth ystyried y cronfeydd a'r holl rwymedigaethau cyfredol, mae'r polisi wedi'i gyllido'n llawn.

Yn unol ag argymhellion yr archwilwyr, rydym yn cymryd camau i elwa o'r cynllun iawndal gwasanaethau cyllid wrth symud ein cronfa diswyddiadau i gyfrif mewn banc gyda thrwydded bancio ar wahân i'r banc sy'n dal ein cronfeydd gweithredu arferol.

## Y Dyfodol

**Tymor byr**

Gwnaed gwaith sylweddol i gael hyd i ffynonellau ariannol amgen. Bydd angen camau pellach dros y byr dymor er mwyn rhoi'r elusen mewn sefyllfa gryfach i gynyddu incwm tu allan y grant craidd. Mae'r staff a'r ymddiriedolwyr wedi gosod cynlluniau er mwyn gwneud hynny.

**Canol i hir dymor**

Gyda'r economi yn gwella'n raddol, byddai disgwyl i'r pwysau ar wariant y llywodraeth i leihau, ond nid oes arwydd o hynny ar hyn o bryd. Mae'n debyg bydd y cynllun presennol i ostwng gwariant cyffredinol y llywodraeth yn parhau, a bydd rhaid i'r trydydd sector ac Anabledd Cymru yn benodol ddangos bod pob ceiniog byddwn yn derbyn yn cynrychioli gwerth da i'n cyllidwyr.

Gyda'n tîm staff ymroddedig, gallwn ddarbwyllo cyllidwyr ein bod yn cynnig y gwerth gorau posibl o fewn y trydydd sector.

**Stephen Sweetman** *Trysorydd*

## Datganiad
# Gweithgareddau ariannol
Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2014

| | Cronfeydd Anghyfyngedig | Cronfeydd Cyfyngedig | Cyfanswm 2014 | Cyfanswm 2013 |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| **INCWM** | | | | |
| **Incwm o gynhyrchu cyllid** | | | | |
| Incwm gwirfoddol | 423,545 | | 423,545 | 423,705 |
| Incwm buddsoddi | 6,820 | - | 6,820 | 1,873 |
| **Incwm o ffynonellau elusennol** | | | | |
| Darparu gwasanaethau | 35,500 | - | 35,500 | 41,452 |
| Grantiau | 729 | 120,817 | 121,546 | 163,643 |
| ***Cyfanswm incwm*** | **466,594** | **120,817** | **587,411** | 630,673 |

| | Cronfeydd Anghyfyngedig | Cronfeydd Cyfyngedig | Cyfanswm 2014 | Cyfanswm 2013 |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| **GWARIANT** | | | | |
| Gweithgareddau elusennol | 422,551 | 153,016 | 575,567 | 576,555 |
| Costau llywodraethu | 39,066 | - | 39,066 | 34,002 |
| ***Cyfanswm gwariant*** | **461,617** | **153,016** | **614,633** | 610,557 |
| ***Symudiadau cronfeydd net*** | **4,977** | **(32,199)** | **(27,222)** | 20,116 |
| **Cysoni cronfeydd** | | | | |
| Cronfeydd dygwyd ymlaen | **385,910** | **41,134** | **427,044** | 406,928 |
| ***Cronfeydd cariwyd ymlaen*** | **390,887** | **8,935** | **399,822** | **427,044** |

# Datganiad
# Gweithgareddau ariannol
Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2014

## Mantolen

| | 2014<br>£ | 2014<br>£ | 2013<br>£ | 2013<br>£ |
|---|---|---|---|---|
| **Asedau cyfredol:** | | | | |
| Dyledwyr | **50,505** | – | 35,497 | – |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | **404,109** | – | 453,987 | – |
| | **454,614** | – | 489,484 | – |
| **Rhwymedigaethau:** | | | | |
| Credydwyr: symiau dyledus o fewn blwyddyn | **(54,792)** | – | (62,440) | – |
| **Asedau cyfredol net** | | **399,822** | | 427,044 |
| **Asedau net** | | **399,822** | | 427,044 |
| **Cronfeydd yr elusen:** | | | | |
| Cronfeydd cyfyngedig | | **8,935** | | 41,134 |
| Cronfeydd anghyfyngedig | | **390,887** | | 385,910 |
| ***Cyfanswm cronfeydd yr elusen*** | | **399,822** | | 427,044 |

**Broomfield & Alexander**
Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Statudol
Tŷ Derw, Lime Tree Court, Parc Busnes Porth Caerdydd, CF32 8AB

## BWRDD
# Cyfarwyddwyr 2013/2014

**Cadeirydd**
Wendy Ashton

**Is-gadeirydd**
April Harper

**Trysorydd**
Stephen Sweetman

**Aelodau Bwrdd**
Delwyn Evans
Mandi Glover
Natasha Hirst
Terry Mills
Trevor Palmer (*ethol Hydref 2013)*)
Nich Pearson (*ymddiswyddo Tachwedd 2013*)
David Power



# Cyflwyniad ein
# Prif Weithredwraig

> “ ***Yn nhermau effeithiolrwydd AC, yn ôl yr aelodau cryfder amlwg yr elusen yw cyfathrebu ac ymgyrchu.***
>
> AC Arolwg Strategol 2014: *20 degrees consulting*

Mae Anabledd Cymru yn brwydro i fynnu hawliau, cydraddoldeb ac annibyniaeth ar gyfer pobl anabl ac mae'n parhau i weithio tua'r nod er yr amgylchedd cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd heriol sy'n cael effaith sylweddol ar bobl anabl.

Fel corff sy'n ymgyrchu ac yn ceisio dylanwadu ar bolisïau, nid yw mesur ein heffaith yn fater syml. Fodd bynnag, mae aelodau a rhanddeiliaid o'r farn bod cyfraniad AC at effeithio polisïau'n arwyddocaol mewn un maes yn benodol: sef cyhoeddi Fframwaith Gweithredu Byw'n Annibynnol Llywodraeth Cymru.

Seiliwyd y Fframwaith ar egwyddorion y model anabledd cymdeithasol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl. Ar ben hynny, ymgorfforwyd o fewn Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru ac fe gyflawnwyd sawl peth yn y maes eisoes, yn cynnwys adolygu cofrestrau tai hygyrch a datganiadau cynllunio a mynediad. Deilliodd hynny o gysylltiadau estynedig rhwng swyddogion, aelodau a rhanddeiliaid a gyd-drefnwyd gan AC a Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu'r Fframwaith, cysylltiad a ganmolwyd fel model o gydweithredu.

Yr her allweddol fydd ymgorffori'r Fframwaith o fewn polisïau a gwasanaethau, gyda phobl anabl a'u cyrff yn chwarae rôl bwysig yn hynny. Yn y cyd-destun hwnnw, roedd AC yn falch o gael grant cydraddoldeb a chynhwysiad Llywodraeth Cymru ar gyfer project *Galluogi*



*Cymru*. Mewn partneriaeth â Chanolfan Cydweithredol Cymru a Chanolfan Byw'n Annibynnol DEWIS, bydd yn darparu pecyn datblygu a hyfforddi ar gyfer pobl anabl ar draws y wlad ac yn anelu i sefydlu o leiaf dwy ganolfan Byw'n Annibynnol a rhwydwaith pobl anabl ifanc.

Un datblygiad pwysig arall oedd cyhoeddi pecyn adnoddau *Tua Galluogi Cymru* ar y cyd â Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus, trydydd sector a defnyddwyr. Diben y pecyn yw dylanwadu ar waith grwpiau technegol a sefydlwyd i gynghori ar lunio rheoliadau a chodau ymarfer yn gysylltiedig â Mesur Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) o safbwynt y model anabledd cymdeithasol. Dosbarthwyd i dros 300 aelod o grwpiau technegol, gan dderbyn llythyr o ddiolch gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol am gyfeirio'r grwpiau ar y llwybr iawn, a chymell AC i'w rannu gyda rhanddeiliaid.

Yn y cyfamser, mae AC wedi gweithredu rhaglen waith yn cynnwys gweithdai ar thema *Gwybod, Defnyddio a Byw eich Hawliau!* Ac fe lansiwyd projectau *Lleisiau Cymunedol* a *Bywydau Digidol* yn ogystal â chwblhau'r project poblogaidd *Ffordd Ymlaen: Cynllunio Mynediad Cynhwysol.*

Cydweithiodd AC gyda bron 300 cyfranogwr mewn 10 digwyddiad ar draws y wlad ac mae'r wefan newydd a thudalennau cyfryngau cymdeithasol *Facebook* a *Twitter* yn cyrraedd miloedd o unigolion a chyrff bob mis.

Croesawyd dau wyneb newydd i'r tîm staff: Victoria Baldwin fel y rheolwraig datblygu busnes newydd fydd yn helpu gyda'r strategaeth ariannol a chreu ffynonellau cyllid

newydd. Penodwyd Fiona McDonald dros gyfnod mamolaeth Miranda French, rheolwraig materion polisi & cyhoeddus. Ymunodd y ddwy ar gyfnod prysur iawn ond fe wnaethant setlo'n syth fel aelodau gweithgar o'r tîm.

Ni fyddai sgôp ac amrediad gwaith AC yn bosibl heb - yn ôl un aelod – ei 'staff gwych, ymroddedig a thalentog, sy'n cyflawni llawer mwy nag y gellid disgwyl' ynghyd â chyfarwyddyd a chyngor ein bwrdd cyfarwyddwyr. Rwy'n ddiolchgar i bob un ohonynt am eu cymorth a'u gobaith mewn dyfodol ble bydd pobl anabl yn mwynhau cydraddoldeb, hawliau ac annibyniaeth lawn.

**Rhian Davies** *Prif Weithredwraig*

> ***Ers arolwg 2010 dros hanner yn teimlo bod [AC] wedi newid er gwell. 83% o'r ymatebwyr wedi sylwi newid mewn perfformiad AC, hynny yw nid yw wedi sefyll yn llonydd.***
>
> AC Arolwg Strategol 2014:
> *20 degrees consulting*

## Nod 1:

### Datblygu Anabledd Cymru fel corff cryf o dan arweiniad ei aelodau

Fel corff ymbarél mae AC wedi ymrwymo i gynnal ei aelodaeth wrth gefnogi datblygiad grwpiau pobl anabl ynghyd â darparu gwybodaeth, hyfforddiant ac adnoddau ar gyfer yr aelodau'n gyffredinol.




*Sioe Deithiol Newidiadau a Hawliau Budd-daliadau, Casnewydd*

## Datblygu aelod grwpiau


Roedd AC yn falch o groesawu dau gorff pobl anabl newydd fel aelodau llawn: Pobl Anabl Ceredigion Gyda'i Gilydd a Grŵp Gweithredu Anabledd Castell-nedd Porth Talbot.

Drwy gyfrwng projectau *Lleisiau Cymunedol* Loteri Fawr yn ardal Penybont a sir Benfro ac mewn partneriaeth â Chyngor Deillion Cymru, mae AC yn cydweithio â Chlymblaid Pobl Anabl Penybont a Grŵp Mynediad Sir Benfro i gynllunio a gweithredu rhaglen hyfforddi er cefnogi eu cysylltiad â'r awdurdod lleol, yn benodol y broses gomisiynu.

## Datblygu hyfforddiant & cynhwysedd

> ***"Croesawyd project y Ffordd Ymlaen ac yn sicr fe welwyd rhai datblygiadau positif.***
>
> Aelod AC, Arolwg Aelodaeth Strategol

Yn yr Arolwg, dywedodd yr aelodau mai 'hyfforddiant' oedd un o'r gweithgareddau roeddent yn gwerthfawrogi fwyaf, wrth gynnwys gwybodaeth a helpu i ddatblygu cynhwysedd. Drwy ei raglen digwyddiadau a phrojectau, parhaodd AC i ymateb i'r galw wrth drefnu seminarau, gweithdai a sioeau teithiol ar amryw bynciau ar draws y wlad. Cefnogwyd gyda gwybodaeth gynhwysfawr ar y wefan newydd ynghyd â'r cylchlythyr misol a newyddion ar Facebook a twitter.




**Sioeau teithiol Gwybod eich Hawliau:** mewn partneriaeth ag Anabledd Dysgu Cymru & Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan, croesawyd 110 person i dri gweithdy ar draws y wlad. Roedd pob sioe'n cynnwys cyflwyniadau ar y

diwygiadau lles a chyhoeddiad newydd AC, *Gwybod, Defnyddio a Byw eich Hawliau!*

**Seminar Blynyddol:** ar thema *Hawliau a Gwytnwch Anabledd - rôl gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth*, gydag 87 cynrychiolydd wedi mynychu'r digwyddiad yn Stadiwm Liberty Abertawe i glywed araith gan Jeff Cuthbert AC, gweinidog cymunedau & trechu tlodi, a chyflwyniadau gan Lindsey Kearton Cyngor ar Bopeth Cymru, Andrew Dunning Prifysgol Abertawe a'r ymgyrchydd hawliau anabledd Kirsten Hearne.

**Grŵp Anabledd Trawsbleidiol:** dros 50 person wedi ymuno â'r cyfarfod ar 3 Rhagfyr, Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl i glywed anerchiad gan Vaughan Gething AC, dirprwy weinidog trechu tlodi. Ymhlith y gynulleidfa oedd dirprwyaeth o'r Alban i ddysgu am gydweithrediad AC a Llywodraeth Cymru i lunio'r Fframwaith Gweithredu Byw'n Annibynnol gyda'r nod o ddatblygu trefn debyg yn eu gwlad nhw.

Dau broject mawr o dan reolaeth AC wedi darparu cyfleoedd hyfforddi ar gyfer aelodau a grwpiau eraill: *Y Ffordd Ymlaen - Cynllunio Mynediad Digidol a Bywydau Digidol.*

***Y Ffordd Ymlaen*** wedi derbyn cyllid am flwyddyn arall gan Lywodraeth Cymru er mwyn cynnal gweithdai yn Wrecsam ac Abertawe ar y pecyn Cyngor Arferion Da yn cynnwys defnydd o'r fersiwn arlein.




***Bywydau Digidol***, a gyllidwyd gan fenter Cymunedau 2.0 wedi galluogi AC i daclo eithrio digidol pobl anabl wrth gynnal gweithdai o gwmpas y wlad. Trefnwyd yn yr Wyddgrug, Penybont & Trefforest, gan alluogi bron 70 cyfranogwr i daclo ofnau wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd, cael cyngor diogelwch a dysgu am feddalwedd a phecynnau defnyddiol.

digitallives • bywydaudigidol



*Tina Evans, swyddog cyfathrebu a bywydau digidol, yn cyflwyno gweithdy yng nghanolfan DEWIS*

## Nod 2:

## Lleisio barn pobl anabl i'r llywodraeth a chyrff dylanwadol eraill gyda'r nod o symbylu polisïau ar gyfer pobl anabl


### Gwybodaeth

Yn ogystal â gweithgareddau 'wyneb yn wyneb' mae AC wedi defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol er datblygu cyfleoedd rhwydweithio newydd ymhlith aelodau a phobl anabl nad ydynt yn rhan o grwpiau. Awgrymodd yr Arolwg Aelodaeth Strategol bod aelodau'n gynyddol yn croesawu gweld a derbyn gwybodaeth yn electronig a drwy byrth arlein.

Ariannwyd gwefan newydd AC drwy broject *Bywydau Digidol* Cymunedau 2.0 a lansiwyd gan y Gweinidog Cymunedau & Trechu Tlodi yn y seminar blynyddol. Mae modd mynd ar y wefan wrth ddefnyddio amryw blatfformau ac mae'n cynnwys linc twitter yn yr hafan. Mae hefyd yn gallu cynnal fforymau trafod. Mae'n derbyn oddeutu 1500 ymweliad bob mis ac yn boblogaidd iawn gyda'r aelodau.

Un nodwedd allweddol a hwyluswyd gan broject Bywydau Digidol yw *Cyfeiriadur eHygyrchedd Cymru* (eAccessibility Wales Directory) – 'siop un stop' ar gyfer cyngor a gwybodaeth am dechnolegau cynorthwyol'.

Mae'r wefan hefyd yn fodd i lwytho cyhoeddiadau er mwyn eu cyflwyno i gynulleidfa ehangach. Mae'r tudalennau newydd yn cynnwys adnoddau *Gwybod eich Hawliau* gyda llawer o wybodaeth am Ddeddf Cydraddoldeb 2010, dyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl. Yn ogystal mae'n cynnwys gwybodaeth am y newidiadau i fudd-daliadau, er enghraifft *Cap mewn Llaw: effaith y diwygiadau lles ar bobl anabl Cymru* a thair taflen newydd ar y taliad annibyniaeth personol, y lwfans cymorth & cyflogaeth a budd-dal tai.




Yn awr gellir darllen y bwletin newyddion misol ar y wefan, gan barhau i ddarparu gwybodaeth bwysig ar gyfer yr aelodau.

Roedd tudalen Facebook AC wedi cyrraedd 1110 dilynwr erbyn diwedd y flwyddyn – cynnydd o 10% sy'n adlewyrchu defnydd rheolaidd gan aelodau wrth wneud sylwadau cyflym a rhannu materion o bwys.

facebook

twitter

Cynyddodd defnydd o dudalen twitter AC i 6169 dilynwr erbyn diwedd y flwyddyn, gan brofi'n ddull gwerthfawr o hysbysu amrediad eang o randdeiliaid ac aelodau o ddatblygiadau a newyddion.

## Ymgynghoriadau

> **"*AC yn cynrychioli'r aelodau yn dda wrth ymgynghori â chyrff eraill.***
>
> Aelod AC, Arolwg Aelodaeth Strategol

Mae ymateb i ymgynghoriadau'r llywodraeth ar ddarpar ddeddfwriaeth a pholisïau ar ran yr aelodau'n cymryd llawer o amser, ond yn gwbl angenrheidiol. Mae effeithiau'r



*Cyfarwyddwyr Delwyn Evans a Natasha Hirst yn derbyn hyfforddiant ar twitter*

diwygiadau lles yng Nghymru a rhaglen ddeddfwriaeth estynedig Llywodraeth Cymru wedi ychwanegu at nifer a chymhlethdod yr ymgynghoriadau o San Steffan a Bae Caerdydd.

Unwaith eto, curodd AC y targed o ymateb i ddogfennau ymgynghorol, gan dreulio llawer o amser yn cysylltu â'r aelodau i drafod y Fframwaith Gweithredu Byw'n Annibynnol, y Mesur Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) a'r newidiadau yn sgil y diwygiadau lles.

Ar ran Clymblaid Taliadau Cymru, lobïodd AC yn llwyddiannus yn erbyn cymalau yn y Mesur Gwasanaethau Cymdeithasol fyddai'n galluogi awdurdodau lleol i fynnu taliad am ddarparu cyngor a gwybodaeth. Yn ogystal cyd-drefnwyd ymateb y Glymblaid i gynigion Llywodraeth Cymru i godi'r uchafswm gofal cymunedol wythnosol o £50 i £5 yn fwy. Yn anffodus cadarnhawyd y cynnydd ond ysgrifennodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwenda Thomas AC yn bersonol at y Glymblaid yn mynegi ei diolch am yr ymateb. Wrth wneud hynny cadarnhaodd, er iddi

godi'r costau, ei bod wedi ymrwymo i gynnal yr uchafswm dros yr hir dymor ac roedd yn gobeithio 'na fyddai ei phenderfyniad yn andwyo'r berthynas waith bositif ym maes gofal cymdeithasol oedd wedi profi'n llesol i ddefnyddwyr gwasanaethau yng Nghymru'.

Roedd yr ymgynghoriadau eraill yn cynnwys y Mesur Teithio Actif ble cydweithiwyd yn agos â Guide Dogs Cymru a'r Mesur Cynllunio yn cynnwys sylwi ar y cynnig i ddileu'r angen am ddatganiadau cynllunio a mynediad fel rhan o gais cynllunio. Roedd canlyniadau arolwg a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru wedi awgrymu eu bod yn aneffeithiol fel ffordd o sicrhau mynediad addas. Yn ei ymateb, a seiliwyd ar sylwadau aelodau a grwpiau mynediad, fe wnaeth AC y pwynt y dylai unrhyw newid fod yn amodol ar gyflwyno trefniadau cadarn ac ymarferol yn eu lle.

## Nod 3:

### Cynnal a chydweithio mewn partneriaeth ag eraill i weithredu ymgyrchoedd i wella gwasanaethau a chodi ymwybyddiaeth o faterion anabledd

> **“*Mae'n anodd i unrhyw gorff newid polisïau'r llywodraeth – ond yn sicr mae AC yn dylanwadu ar bolisïau'r llywodraeth.***
>
> Aelod AC, Arolwg Aelodaeth Strategol

Mae ymgyrchu ar ran yr aelodau'n dal yn flaenoriaeth i AC, yn arbennig yn yr hinsawdd ariannol bresennol a'r effaith mae'n cael ar allu pobl anabl i fyw'n annibynnol. Yn ogystal â gostwng budd-daliadau a gwasanaethau, mae llawer o bobl anabl yn adrodd bod y cyhoedd yn gallu ymateb yn wael iddynt. Mae'n debyg bod hynny'n gysylltiedig ag adroddiadau ar y cyfryngau o dwyll gan bobl yn hawlio budd-daliadau, sy'n amharod i weithio ac yn ffugio amhariadau.

O ganlyniad, mae AC wedi parhau i ymgyrchu ym meysydd diwygiadau lles, byw'n annibynnol a throseddau atgasedd anabledd er mwyn gwella ymwybyddiaeth, dileu rhwystrau a lliniaru effeithiau'r dirwasgiad.

## Diwygiadau lles

Roedd cyhoeddiad AC *Cap mewn Llaw: effaith y diwygiadau lles ar bobl anabl Cymru* wedi darparu deunydd i gefnogi ymateb i ymgynghoriadau, cyflwyniadau a chysylltiadau gydag amryw dasgluoedd. Yn ogystal, profodd yn gyfle i gyfarfod y Gweinidog Cymunedau & Trechu Tlodi ar y pryd, Huw Lewis AC i drafod canlyniadau ac argymhellion yr adroddiad.

Yn ogystal, darparodd ddeunydd ar gyfer cyflwyniad AC i Rwydwaith Iechyd Meddwl mewn Gofal Cychwynnol Cymru, a gyfrannodd at ei benderfyniad i gynhyrchu dogfen ar y diwygiadau lles a'u heffaith ar gleifion, i'w dosbarthu i feddygon teulu.

Ar y cyd ag ymgyrch '*eich budd-daliadau yn newid*' gan CHC, cynhyrchodd AC dair taflen wybodaeth: taliad annibyniaeth personol, lwfans cyflogaeth & cymorth a budd-dal tai.

## Taliad Annibyniaeth Personol

Cyflwynwyd y Taliad (Personal Independence Payment - PIP) i gymryd lle'r lwfans byw anabledd yn achos pobl yn hawlio o'r newydd a Capita yw'r asiantaeth sy'n cynnal yr asesiadau yng Nghymru. Mynegodd AC ei bryderon am PIP, yn cynnwys yr asesiad seiliedig ar bwyntiau oedd yn canolbwyntio ar weithrediad corff pobl yn hytrach na rhyngweithiad amhariadau pobl gyda'r amgylchedd. Wedi dweud hynny, ar ran yr aelodau mae wedi cysylltu â'r Adran Gwaith & Pensiynau (DWP) a Capita yn ystod y prosesau cynllunio a gweithredu er mwyn ceisio osgoi'r profiadau gwael a wynebodd lawer gydag asesiad gallu gweithio ESA.

**Grŵp Gweithredu Ymgynghorol PIP DWP:** Mae AC yn

cynrychioli'r aelodau ar y grŵp ac wedi galw am nifer o bethau, yn cynnwys recordiau sain o asesiadau PIP.

**Grŵp Rhanddeiliaid PIP Capita:** Mae AC yn cynrychioli'r aelodau ar y grŵp gan fynychu cyfarfodydd chwarterol yn Llundain. Helpodd i drefnu dau gyfarfod gyda chyrff anabledd cenedlaethol yng Nghaerdydd ble codwyd pryderon am yr oedi difrifol wrth brosesu ceisiadau PIP a galwyd am gamau brys i daclo'r sefyllfa.

## Cronfa Byw'n Anibynnol

Cyhoeddodd Llywodraeth San Steffan ei bod am ddileu'r Gronfa (Independent Living Fund – ILF) ar 31 Mawrth 2015, ond yn dilyn apêl lwyddiannus i'r Uchel Lys, gohiriwyd am dri mis hyd fis Mehefin. Fe drosglwyddir cronfeydd ILF a delir ar hyn o bryd i bobl yng Nghymru i Lywodraeth Cymru sydd wedi sefydlu grŵp rhanddeiliaid i ystyried sut i'w gweinyddu yn y dyfodol. Mae AC yn cynrychioli'r aelodau ar y grŵp er mwyn rhoi cyngor i'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, fydd wedyn yn ymgynghori ar yr opsiynau.

Yn y cyfamser, mae AC wedi hysbysu ei aelodau, yn arbennig rhai'n derbyn ILF, o'r datblygiadau.

## Troseddau Atgasedd Anabledd

Gweithiodd AC yn galed i wella ymwybyddiaeth o droseddau atgasedd anabledd (Disability Hate Crime) yng Nghymru, gyda'r gweithgaredd yn cynnwys cynnal digwyddiadau ar y cyd â fforwm amrywiaeth Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru. Arweiniodd hynny at sefydlu grŵp gweithredu troseddau atgasedd anabledd a gyd-drefnir gan AC a hefyd cyfrannodd yn sylweddol at fentrau polisi newydd fel y fframwaith gweithredu ar droseddau atgasedd.

Mae'r dirwasgiad ariannol a'r diwygiadau lles wedi arwain at lawer o bobl anabl yn adrodd bod y cyhoedd yn gallu ymateb yn wael iddynt, gyda photensial am gynnydd mewn achosion o droseddau atgasedd anabledd. Felly, mae'n dal

yn fater o bryder ac ar ran y grŵp gweithredu cyflwynwyd cais am grant cydraddoldeb a chynhwysiad Llywodraeth Cymru er mwyn datblygu'r grŵp a'i waith. Nid oedd hwnnw'n llwyddiannus ond mae AC yn cydweithio â Cymorth Dioddefwyr (Victim Support) a Taking Flight Theatre a lwyddodd i gael grantiau ar gyfer projectau atgasedd anabledd.

Yn ogystal, mae AC yn aelod o'r grŵp llywio cenedlaethol a sefydlwyd gan Heddlu Dyfed Powys er mwyn cynnal Cynhadledd Asesu Risgiau Aml-asiantaeth (Multi Agency Risk Assessment Conference – MARAC) i drafod troseddau atgasedd anabledd.

## Byw'n Annibynnol

> ***"Maniffesto a'r Fframwaith Gweithredu Byw'n Annibynnol - enghraifft wych o ddylanwadu ar bolisïau'r llywodraeth a sut mae ymgyrch gyhoeddus yn gallu symbylu pobl a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.***
>
> Aelod AC, Arolwg Aelodaeth Strategol

Yn dilyn ymgyrch AC, Byw'n Annibynnol Nawr, cydweithiodd yn agos â Llywodraeth Cymru i ddatblygu Fframwaith Gweithredu Byw'n Annibynnol a lansiwyd gan y Gweinidog Cymunedau & Trechu Tlodi Jeff Cuthbert AC ym mis Medi.

Roedd y gweithgareddau'n cynnwys cynllunio a threfnu tri chyfarfod o'r grŵp llywio cenedlaethol, ynghyd ag is-grŵp a ddatblygodd fesurau perfformiad ar gyfer y Fframwaith. Yn ogystal gweithiodd gyda'r swyddogion i gynllunio'r lansiad a darparu siaradwr.

Llwyddodd AC gyda chais am grant cydraddoldeb a chynhwysiad Llywodraeth Cymru i gynnal project tair blynedd *Galluogi Cymru*. Dechreuodd yn Ebrill 2014 er mwyn datblygu

mesurau o fewn y Fframwaith i sefydlu dwy ganolfan byw'n annibynnol a Galluogi Cymru Ifanc - rhwydwaith ar gyfer pobl ifanc anabl. Mae partneriaid y project yn cynnwys Canolfan Cydweithredol Cymru & Canolfan Byw'n Annibynnol DEWIS.

## Nod 4:

### Datblygu trefniadau cyllid cynaladwy

Yn debyg i'r rhan fwyaf o gyrff sy'n derbyn cyllid cyhoeddus, mae AC wedi wynebu gostyngiad mewn incwm grantiau. Mae'n llwyr dderbyn yr angen i ehangu ei sylfaen ariannu er mwyn bod yn llai dibynnol ar grantiau'r llywodraeth ac yn benodol er cynhyrchu incwm wrth ddarparu gwasanaethau hyfforddi ac ymgynghori ble na fydd cyfyngiad ar wariant y ffioedd cyn belled ag y dilynir amcanion elusennol AC.

Penododd AC Victoria Baldwin, rheolwraig datblygu busnes newydd, gan ddefnyddio'r arolwg strategol i ailedrych ar ei ddulliau cynhyrchu incwm.

## Projectau newydd

Gweithiodd AC ar sawl cais cyllid, gan dderbyn grantiau ar gyfer dau broject mawr fydd yn dechrau yn y flwyddyn ariannol newydd: *Galluogi Cymru* gyda grant cydraddoldeb & cynhwysiad Llywodraeth Cymru a *Mentrau Cydweithredol o dan arweiniad* dinasyddion gyda grant arloesi'r Loteri Fawr.

Gweithredir mewn partneriaeth â chyrff eraill, sef Canolfan Cydweithredol Cymru yn bartner ar y ddau a Chanolfan Byw'n Annibynnol DEWIS yn bartner ar Galluogi Cymru. Mae'r ddau broject yn cynnwys cyllid ar gyfer swyddog datblygu llawn amser fydd yn helpu i ddatblygu gallu AC i gydweithio â'r aelodau i sefydlu canolfannau byw'n annibynnol a mentrau cydweithredol i helpu unigolion gyda'u taliadau uniongyrchol.

Mae AC yn rhagweld bydd y ddau broject yma, ynghyd â Lleisiau Cymunedol yn ardal Penybont a sir Benfro yn helpu i ymateb i sylwadau gan aelodau yn ystod yr Arolwg Strategol yn galw am fwy o gymorth a gweithgaredd ar lefelau lleol.

## Nod 5:

## Datblygu trefniadau llywodraethu a rheoli cynaladwy ac effeithiol

Ar ran yr aelodau, bydd AC yn rhoi pwyslais mawr ar weithredu'n ddilys a dros y blynyddoedd diwethaf mae wedi cynnal arolygon manwl o'i bolisïau a gweithdrefnau er sicrhau eu bod yn addas at y diben.

### Arolwg strategol

Bydd AC yn cynnal arolwg strategol bob tair blynedd wrth gysylltu â'r aelodau, rhanddeiliaid allanol, cyfarwyddwyr a staff. Trefnwyd gan *20 degrees consulting* gan gynnwys arolygon, cyfweliadau un-i-un a digwyddiad gyda'r cyfarwyddwyr a'r staff.

Mae'r broses yn hwyluso adolygu effeithiolrwydd AC wrth wireddu ei amcanion ar ran yr aelodau a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Roedd lefel ymateb yr aelodau'n uchel (27.2%) i fyny o 20.5% gydag arolwg 2010, gyda chynnydd sylweddol yn nifer yr ymatebion gan aelodau unigol.

Cynhaliwyd dros yr hydref/gaeaf, gan grynhoi sylwadau positif iawn gan aelodau a rhanddeiliaid am AC a darlun cyson o 'gorff yn seiliedig ar werthoedd cadarn' sy'n 'wybodus, dibynadwy ac uchel ei barch'.

Yn gyffredinol, cydnabuwyd y Fframwaith Gweithredu Byw'n Annibynnol fel llwyddiant mawr ac yn faes ble roedd AC wedi cael effaith arwyddocaol. Roedd yr aelodau hefyd o'r farn dylai byw'n annibynnol barhau'n flaenoriaeth yn nhermau gweithgaredd y dyfodol.

Roed prif argymhellion yr arolwg yn cynnwys canolbwyntio ar gynhyrchu incwm wrth greu portffolio o brojectau arloesol yn hytrach na gwasanaethau hyfforddi ac ymgynghori cyffredinol; adolygu nodweddion aelodaeth i gynnwys pecynnau penodol; a chynllunio olyniaeth. Cafwyd ymateb positif i'r arolwg gan y Bwrdd ac mae eisoes yn gweithredu ar nifer o'r argymhellion.


## Safon y Ddraig Werdd

Cyrhaeddodd AC lefel pedwar o Safon y Ddraig Werdd, safon rheoli amgylcheddol – pump yw'r lefel uchaf. Mae lefel pedwar yn galw am ddatblygu system rheoli amgylcheddol ffurfiol ac adrodd ar lwyddiannau amgylcheddol. Canmolwyd AC am gyrraedd safon mor uchel fel corff bach.

## Buddsoddwyr mewn Pobl

Mae AC yn parhau i gynnal ei achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl wrth neilltuo adnoddau i ddatblygu pob cyfarwyddwr, aelod staff a gwirfoddolwr. Yn ogystal ag arolygu rhaglen hyfforddi a datblygu AC bob blwyddyn, cymeradwyodd y Bwrdd bolisi hyfforddi a datblygu diwygiedig. Mae'n adlewyrchu pwysigrwydd a gwerth y maes yma i AC wrth gyrraedd amcanion y corff.

# Strwythur
## trefniadol



## Aelodau

## AC 2013/2014

Caffaeliadau Prifysgol Caerdydd
Action on Hearing Loss Cymru
Age Concern Cymru
Bwrdd Iechyd Cymunedol Aneurin Bevan
Antur Teifi
Grŵp Mynediad Arfon
Gofal Arthritis Cymru
Breakthrough UK Limited
Clwb Anabledd Aberhonddu a'r Cylch
Clymblaid Pobl Anabl Penybont
British Limbless Ex-Service Mens Association
C.L.I.P
Cymdeithas Tai Cadwyn
Ffederasiwn Rhieni Caerdydd a'r Fro
Grŵp Mynediad Caerdydd
Tai Cymunedol Caerdydd
Pobl yn Gyntaf Caerdydd
Cyngor Trydydd Sector Caerdydd
Caerdydd Broydd a Chymoedd
Cymdeithas Tai YMCA Caerdydd
Clymblaid Gweithredu Anabledd Sir Gaerfyrddin
Grŵp Mynediad Anabledd Sir Gaerfyrddin
Catch Up Ltd
Canolfan Byw'n Annibynnol De Gwynedd
Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ceredigion
Plant yng Nghymru
Dinas a Sir Abertawe
Cymdeithas Tai Clwyd Alun
Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru
Grŵp Mynediad Gwirfoddol Sir Conwy
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy
DAGTHA
Destek Accessibility Technology Solutions
Canolfan Byw'n Annibynnol Dewis

Grŵp Gweithredu Anabledd Cymru
Project Cyngor Anabledd
Celfyddydau Anabledd Cymru
Disability Law Service
Canolfan Adnoddau Anabledd
Chwaraeon Anabledd Cymru
Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Fieldsman Trails - Access Consultancy
First Choice Housing Association Ltd
Fforwm Anabledd Sir y Fflint
Flintshire New Age Kurlers
GAVO
Cyngor Cymuned Glyn-nedd
Groundwork Gogledd Cymru
Grŵp Mynediad Meirionnydd Access Group
Cŵn Tywys
Menter Cwm Gwendraeth
Clwb Modurwyr Anabl Gwent
Tîm Cydlyniant Heddlu Gwent
Headway Cardiff
Headway Swansea
Law Works
Anabledd Dysgu Cymru
Cymdeithas MS Cymru
Cyngor Tref Machynlleth
Mencap Cymru
Sefydliad y Deillion Merthyr Tudful
Cartrefi Cwm Merthyr
Cyngor Sir Fynwy
Cymdeithas Tai Sir Fynwy
Cyngor Tref Nantyglo a Blaenau
Cyngor Tref Arberth
Comisiwn Cenedlaethol Pobl gydag Anabledd
Cyngor Castell-nedd Porth Talbot
Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Porth Talbot
Grŵp Gweithredu Rhwydwaith Anabledd Castell-nedd Porth Talbot

Grŵp Mynediad Casnewydd
Cartrefi Dinas Casnewydd
Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol GIG
Grŵp Mynediad Sir Benfro
Pobl yn Gyntaf Sir Benfro
Cyngor Tref Penarth
Remploy Ltd
Grŵp Mynediad Rhondda Cynon Taf
Cyngor Rhondda Cynon Taf
Pobl yn Gyntaf Rhondda Cynon Taf
RNIB Cymru
Cymru Ddiogelach
SAIL
Sefydliad St. Loyes Foundation
Sense Cymru
Services for Independent Living (s4il)
Shaw Trust
Heddlu De Cymru
Cymdeithas Strôc Cymru
Gofal a Thrwsio Abertawe
Menter Anabledd Abertawe
Cyngor Cymuned Ffynnon Taf
Tai Pawb
TARAN Disability Forum Ltd
Cronfa Goffa Keith Morris
UNISON Cymru/Wales
Unite The Union
Prifysgol Morgannwg
Canolfan Gwasanaethau Gwirfoddol y Fro
Cyngor Bro Morgannwg
Viva! (Wales)
Cyngor Pobl Fyddar Cymru
Cyngor Deillion Cymru
Gwasanaethau Asesu Symudedd a Gyrru Cymru
Grŵp Mynediad Ynys Môn
Lleisiau Ifanc er Dewis

# Nodiadau